| | |
|---|---|
| **Yn atebol i'r** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **6 Mai 2025** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | **Y Cynghorydd Diane King (Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc)** |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | **Geraint Davies (Pennaeth Addysg)** |
| **Awdur yr adroddiad** | **Geraint Davies (Pennaeth Addysg)** |
| **Teitl** | **Cyllid Addysg Ychwanegol o £500,000** |

# 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn nodi sut y bwriedir gwario'r £500,000 a drosglwyddwyd i'r Adran Addysg er mwyn datblygu lles, presenoldeb ac ymddygiad dysgwyr, a chefnogi dysgwyr mewn tlodi. Mae hyn mewn ymateb i'r newid y cytunwyd arno yn y Cyngor Llawn ar 20 Chwefror, 2025.

# 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Darparu gwybodaeth ar sut y bwriedir gwario'r £500,000 ychwanegol i gefnogi lles, presenoldeb ac ymddygiad dysgwyr a chefnogi dysgwyr mewn tlodi.

# 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Gwahoddir y Pwyllgor Craffu i drafod manylion yr adroddiad hwn a chefnogi'r cynllun arfaethedig i ddatblygu lles, presenoldeb ac ymddygiad dysgwyr a chefnogi dysgwyr mewn tlodi.

# 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Roedd cyfraddau presenoldeb ysgolion ar ddiwedd blwyddyn ysgol 2018/19 cyn y pandemig ar gyfer ysgolion cynradd yn 94.8% ac ysgolion uwchradd yn 93.7%. Gyda'i gilydd, roedd y ddau ffigwr yn rhoi cyfartaledd o 93.7%.

4.2 90.6% oedd cyfartaledd presenoldeb Cymru ar gyfer ysgolion cynradd/uwchradd ym mlwyddyn academaidd Medi 2023 i Fehefin 2024. Mae hyn wedi cynyddu o 89.2%

dros yr un cyfnod yn 2022/23 ar hyd Cymru gyfan. Yn Sir Ddinbych, roedd cyfanswm ysgolion cynradd / uwchradd gyda'i gilydd ar gyfer blwyddyn academaidd 2023 / 2024 yn 89.9 %, sy'n cyfateb i 0.7 % yn llai na chyfartaledd Cymru. Presenoldeb yw'r brif flaenoriaeth yn ysgolion Sir Ddinbych.

4.3 Gwella presenoldeb yn yr ysgolion yw'r flaenoriaeth y cynutwyd arni ar gyfer y flwyddyn ysgol hon i bob tîm o fewn y Gwasanaethau Addysg, gan weithio gydag ysgolion i fonitro a chefnogi ymgysylltiad disgyblion.

**Nid oes un ateb, un grŵp nac un gwasanaeth a all ymdrin â'r mater hwn.**

4.4 Mae cwmpas yr uchod yn ymdrin â nifer o faterion mae plant yn delio â nhw yn ddyddiol: apathi, digalondid ac yn fwy pryderus, iechyd meddwl a lles sydd wedi cynyddu'n sylweddol ers 2018. Mae gan y rhan fwyaf os nad pob atgyfeiriad i'r Gwasanaeth Lles Addysg thema sy'n ailadrodd o'r materion uchod.

4.5 Mae dull ysgol gyfan yn gyffredin ar draws ysgolion Sir Ddinbych lle gall yr holl staff, beth bynnag fo'u swyddogaeth, wneud gwahaniaeth i blentyn mewn ysgol sy'n gosod y plentyn wrth galon yr holl waith gyda chysylltiad cyffredin o ddysgu, gofal a lles.

4.6 Mae'r dull ysgol gyfan yn cydnabod bod lles, presenoldeb ac ymddygiad dysgwyr a chefnogaeth i ddysgwyr mewn tlodi i gyd yn gwbl gysylltiedig ac nid oes modd eu gwahanu oddi wrth ei gilydd, a gallai'r cynllun sydd wedi'i gytuno fod yn canolbwyntio ar un maes ond bydd yn effeithio ar bob maes arall.

4.7 Er bod y cyllid ychwanegol ar gyfer yr Adran Addysg, rydym ni bob amser yn gweithio'n agos gydag ysgolion a thrafodwyd y cyllid hwn gyda grŵp penodol o Benaethiaid. Dyma eu barn nhw:

- Cynyddu capasiti cefnogaeth Gweithwyr Cyswllt Teulu
- Staff ychwanegol i weithio gyda theuluoedd
- Angen canolbwyntio nid yn unig ar gael plant i'r ysgol ond eu cadw yn yr ysgol hefyd.
- Cynyddu capasiti Tîm Lles Addysg
- Cynyddu Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd i ddatblygu ymgysylltiad rhieni

4.8 Bydd canolbwyntio i ddechrau ar bresenoldeb yn gwella lles y teuluoedd sydd bellaf oddi wrth addysg a hefyd yn canolbwyntio ar deuluoedd a allai fod yn byw mewn tlodi. Yn y flwyddyn gyntaf, ni fyddwn yn gallu mynd i'r afael â phob ardal, ond byddwn yn canolbwyntio ar rai penodol.

4.9 Ym mis Ionawr 2024, cyhoeddodd Estyn adroddiad thematig ar wella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd. Roedd y canlyniad yn amlygu'r meysydd y dylai ysgolion a'r awdurdod lleol ganolbwyntio arnynt. Dyma nhw:

**Dylai ysgolion:**

- Gryfhau prosesau cynllunio i wella presenoldeb yn strategol, gan gynnwys defnyddio data'n effeithiol i weld tueddiadau a chynllunio ffyrdd yn y tymor hir o wella presenoldeb disgyblion
- Cryfhau eu dulliau monitro, gwerthuso a gwella presenoldeb
- Cryfhau eu gwaith gyda rhieni/gofalwyr i egluro pam mae presenoldeb da'n bwysig
- Datblygu dulliau mwy effeithiol o gasglu barn disgyblion nad ydynt yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd
- Sicrhau bod y cynnig addysgu a'r cwricwlwm yn denu disgyblion i ddysgu

**Dylai awdurdodau lleol:**

- Herio a chefnogi ysgolion yn effeithiol ac yn rheolaidd i wella presenoldeb disgyblion a helpu i werthuso effaith eu gwaith
- Sicrhau bod ymyraethau'r awdurdod lleol yn adeiladu ar waith mae ysgolion wedi'i wneud eisoes
- Gweithio gydag ysgolion i'w cefnogi i weithio gyda rhieni/gofalwyr i ddeall pwysigrwydd presenoldeb

4.10 Mae'r cynnig addysg yn ceisio mynd i'r afael â'r argymhellion mae Estyn wedi'u cyflwyno a diwallu anghenion ysgolion i wella presenoldeb ac, yn eu tro, gwella ymddygiad a lles:

| Disgrifiad | Cost | Effaith |
|---|---|---|
| **Moderneiddio systemau** Trawsnewid dulliau dadansoddi data presenoldeb gan ddefnyddio gwybodaeth fusnes ac adnoddau delweddu data e.e. Power BI | £36,000 | Bydd hyn yn cefnogi swyddogion ac ysgolion i fynd i'r afael ag ystyriaethau gan Estyn yn ystod ymweliad estynedig diweddar yr arolygwyr cyswllt i ddefnyddio ystod o wybodaeth am bresenoldeb grwpiau o ddysgwyr i weld tueddiadau a thargedu adnoddau a chefnogaeth ar draws ysgolion. Bydd hefyd yn cefnogi swyddogion i fonitro data byw'n |

| | | |
|---|---|---|
| | | gyson i allu bod yn gadarn wrth ddal arweinwyr ysgolion i gyfrif o ran eu defnydd o ddata presenoldeb disgyblion. |
| **Gweithwyr Cyswllt Teulu (3 i 7 oed)**<br><br>Cynyddu staffio o fewn y tîm ymyrraeth gynnar hwn, sy'n meithrin perthynas gadarnhaol gyda rhieni o oed ifanc iawn ar siwrnai ddysgu plentyn hyd at yr ystod oedran 3 i 7 oed. Mae hyn yn galluogi'r tîm i sylwi pan mae teulu'n mynd i argyfwng ac ymyrryd yn gynnar. | £148,000 | Mae Cromlin Heckmann yn dangos bod y manteision economaidd mwyaf yn dod o fuddsoddi mewn ymyrraeth gynnar i blant a theuluoedd. Mae buddsoddi yn y maes hwn yn gwella presenoldeb yn yr ysgol ac yn cefnogi datblygiad a lles plant, yn enwedig yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. |
| **Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd (9 i 12 oed)**<br><br>Swyddogion ychwanegol i weithio gyda theuluoedd i gefnogi presenoldeb ym mlynyddoedd hŷn yr ysgolion cynradd a phontio i'r ysgol uwchradd. Gall problemau yn yr ystod oedran hwn arwain at ddiffyg presenoldeb sylweddol mewn ysgolion uwchradd. Yn aml, mae'r rhain yn deuluoedd sy'n profi tlodi. | £91,000 | Mae cefnogi pontio i'r ysgol uwchradd trwy ymyrraeth gynnar ym mlynyddoedd hŷn y cynradd yn gwella presenoldeb yn y tymor hir. Dylai hyn fynd i'r afael â phroblemau rydym yn eu profi ar hyn o bryd lle mae problemau presenoldeb sy'n cychwyn ym mlwyddyn 7 yn tyfu mewn blynyddoedd hŷn ac yn dod yn arferiad ym mlynyddoedd 10/11, sy'n gyson ar draws Cymru. |
| **Cefnogi Ymddygiad mewn Ysgolion Uwchradd (11 i 16 oed)**<br><br>Staffio arbenigol ychwanegol o fewn Gwasanaeth Allgymorth Ysgolion Sir Ddinbych i ddarparu cymorth uniongyrchol i ddisgyblion a chyfleoedd hyfforddiant i staff ysgolion, a gallu dadansoddi gwybodaeth yn well i weld tueddiadau a phatrymau. | £114,000 | Bydd y cynnig hwn yn cefnogi plant i wella eu hymddygiad eu hunain yn yr ysgol. Bydd hefyd yn edrych ar fodel cynaliadwy i ddarparu mwy o hyfforddiant i staff ysgolion i ddeall a chefnogi plant sydd â phroblemau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, gan geisio lleihau dibyniaeth ar wasanaethau allanol. |
| **Seicolegydd Addysg Cynorthwyol**<br><br>Niwro-broffilio gyda phlant nad ydynt yn mynychu'r ysgol, neu sy'n profi problemau ymddygiadol neu les yn yr ysgol oherwydd problemau a allai fod yn gysylltiedig â niwroamrywiaeth. Cefnogi gwaith o ddarparu'r hyfforddiant newydd ar Osgoi Ysgol am Resymau Emosiynol. | £52,000 | Bydd plant sydd ar hyn o bryd ar restrau aros niwroddatblygiadol yn cael cefnogaeth yn seiliedig ar anghenion o fewn ein hysgolion, i wella eu presenoldeb, eu hymddygiad a'u lles, heb fod yn ddibynnol ar ddiagnosis. Adnabod plant a allai ddechrau osgoi'r ysgol am resymau emosiynol a'u cefnogi. |
| **Swyddog Lles Addysg** | £59,000 | Bydd hyn yn darparu cymorth |

| | | |
|---|---|---|
| Swyddog ychwanegol i weithio ar yr achosion mwyaf difrifol o ddiffyg presenoldeb mewn ysgolion, lle mae angen gwybodaeth fwy arbenigol i gefnogi a herio teuluoedd, a pharatoi ar gyfer achosion cyfreithiol a mynd i'r rheiny. Dros y blynyddoedd, mae'r gwasanaeth hwn wedi'i gwtogi oherwydd heriau cyllid. Y swyddogion hyn sy'n ymdrin â rhybuddion cosb benodedig a gorchmynion presenoldeb yn yr ysgol. | | wedi'i dargedu'n ofalus i'r rhai sydd â'r problemau presenoldeb mwyaf difrifol lle mae angen ymyrraeth statudol trwy'r broses rhybuddion cosb benodedig neu'r llysoedd. Bydd hyn yn cynyddu'r tîm craidd sydd ar hyn o bryd yn rheoli llwythi mawr o achosion a galw cynyddol gan ysgolion yn seiliedig ar ddata presenoldeb ysgolion. Bydd yn cynyddu'r capasiti i fynd i'r afael â'r maes gwaith cymhleth a dyrys hwn gyda theuluoedd i gefnogi disgyblion i ddychwelyd i'r ysgol ac ymwneud â'u haddysg unwaith eto. |

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1 Mae'r maes gwaith hwn yn cyfrannu at wneud Sir Ddinbych yn lle ble mae pobl ifanc eisiau byw a gweithio a chyda'r sgiliau i wneud hynny. Mae hefyd yn cyfrannu at wneud Sir Ddinbych yn rywle y gall pobl ifanc ffynnu a chael y cychwyn gorau mewn bywyd beth bynnag fo'r problemau neu heriau maent yn eu hwynebu.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Ni fydd unrhyw gost ychwanegol i wasanaethau eraill ond bydd effaith gadarnhaol ar rai gwasanaethau.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1 Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Wedi casglu safbwyntiau Penaethiaid, y Prif Seicolegydd Addysg, Pennaeth yr Uned Cyfeirio Disgyblion a'r Swyddog Cynhwysiant, y Gweithiwr Cymdeithasol Addysg Arweiniol, Arweinydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y Blynyddoedd Cynnar a'r Prif Reolwr Addysg.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Fel y nodir yn adran 6 yn yr adroddiad.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Bydd y risgiau o beidio â chyflawni nod strategol LlC a'r ALI o bosib yn golygu bod nifer is o blant yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd yn Sir Ddinbych a fyddai yn ei dro'n effeithio ar eu lles. Bydd y gwaith hwn yn lliniaru'r risgiau hynny.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Deddf Addysg 1996 – Adran 444

11.2 Mae pwerau'r Pwyllgor Craffu mewn perthynas â'r mater hwn wedi'u nodi yn Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7 o Gyfansoddiad y Cyngor.